Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Bro Dinefwr

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Dinefwr yn gymuned ofalgar lle mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'n bersonol a chymdeithasol trwy wersi pwrpasol a thrwy amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol o ran chwaraeon, creadigol, cerddorol a pherfformio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-chwarae a chymdeithasu'n waraidd yn ystod amseroedd egwyl a chinio ac yn mynegi bodlonrwydd am y ffordd  maent yn cael eu trin. Mae'r gydberthynas agos a chynhaliol rhwng staff a disgyblion yng Nghanolfan Cothi yn nodwedd gref. Rhoddir cefnogaeth emosiynol ac academaidd werthfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y prif lif yng Nghanolfan Barcud a thrwy'r ddarpariaeth awyr agored ysgogol a llesol, 'Natur'.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan yn eu medrau pwnc o ganlyniad i addysgu grymus a chynllunio gofalus eu hathrawon. Er bod mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol, nid ydynt yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent oherwydd diffygion yn yr addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys disgwyliadau rhy isel gan athrawon, cyfradd araf i'r gwersi a diffyg cynllunio tasgau sy'n datblygu medrau meddwl ac annibyniaeth disgyblion yn ogystal â'u medrau llythrennedd, rhif a digidol.

Mae'r ysgol yn cynnig dewis eang iawn o gyrsiau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth gyda llawer ohonynt ar gael yn y ddwy iaith ar wahân. Mae gwerthusiad o'r cynnig cwricwlaidd a'r cynllunio strategol ar gyfer addasiadau angenrheidiol yn eu dyddiau cynnar.

Ers ei benodiad ym Ebrill 2023, mae'r pennaeth wedi arddel diwylliant o degwch a pharch. Mae wedi sefydlu trefn rheolaeth llinell bendant ac wedi adnabod prif feysydd gwella'r ysgol. Serch hyn, nid yw rolau a chyfrifoldebau rhai uwch arweinwyr wedi'u diffinio'n glir ac nid yw gweithdrefnau presennol yr ysgol o sicrhau ansawdd ei gwaith yn ddigon miniog i ganiatáu iddynt adnabod yr union agweddau y mae angen eu gwella. Nid yw arweinwyr ar bob lefel yn gwneud cyswllt digon agos rhwng ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna'r disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a medrau digidol yn danddatblygedig.

Mae'r llywodraethwyr yn angerddol dros yr ysgol ac yn gefnogol iawn i'w gwaith. Mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n briodol. Er bod arweinwyr yn holi barn staff am agweddau o waith yr ysgol, nid ydynt yn ceisio barn rhieni a disgyblion yn ddigon rheolaidd i'r cynorthwyo i gynllunio gwelliannau.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 6 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

- **A1 Gwella addysgu, gan roi sylw penodol i godi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a chynyddu lefel yr her i ddisgyblion o bob gallu**
- **A2 Sicrhau darpariaeth gydlynus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhif a digidol disgyblion**
- **A3 Miniogi trefniadau hunan a chynllunio ar gyfer gwelliant fel bod arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion**
- **A4 Cryfhau'r cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth ac ar gyfer rolau a chyfrifoldebau arwain ysgol gyfan**
- **A5 Gwella presenoldeb**
- **A6 Sicrhau rheolaeth a monitro priodol o'r gyllideb**

**Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol i fonitro cynnydd tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.